# Gweithdrefnau Gêm LUCKY BONUS




**Cyflwyniad**
Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer LUCKY BONUS (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn gymwys. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Manylion y Gêm**
Enw'r Gêm: **"LUCKY BONUS"**
Rhif y Gêm: **"1174"**
Pris Manwerthu: **£2 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 4.04 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 11,053,800 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

**Sut i chwarae ac ennill**
Mae tair Ardal Chwarae ar bob Cerdyn Crafu wedi'u nodi fel BONUS, SUPER BONUS a MAIN GAME.

Gall Chwaraewyr ennill hyd at 9 gwaith ar Gerdyn Crafu.

**Gêm Game**

Mae Ardal Chwarae Gêm BONUS yn cynnwys un motiff 'BONUS' a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr") yn union o dan y motiff 'BONUS' hwnnw. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr yn awtomatig os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae ' ' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y motiff 'BONUS'. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr a ddangosir gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr sydd yn union o dan y Symbol Chwarae ' ' hwnnw.

**Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer Gêm BONUS**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | **-BANK** | **BRCASE** | **WALLET** | **MNYBAG** | **-GEM-** |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | **SILVER** | **CROWN** | **-RUBY** | **-WIN-** | |

Bydd un Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Ardal Chwarae Gêm BONUS. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae Gêm BONUS y gellir eu defnyddio i chwarae Gêm BONUS.

**Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer Gêm BONUS**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £2.00 | £4.00 | £5.00 | £10.00 | £20.00 |
| Penawdau Gwobr | **-TWO-** | **-FOUR** | **-FIVE** | **-TEN-** | **TWNTY** |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Gwobr yn Ardal Chwarae Gêm BONUS. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond Symbol Gwobr Gêm BONUS a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr y gellir ei ddefnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â Gêm BONUS.

**Gêm SUPER BONUS**

YOU MUST BE 16 OR OVER TO PLAY OR CLAIM A PRIZE 16+

**GP GM1174**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®
AMAZING STARTS HERE

Mae Ardal Chwarae Gêm SUPER BONUS yn cynnwys un motiff ' ' a'r gair PRIZE (y "Blwch Gwobr") yn union o dan y motiff ' ' hwnnw. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr yn awtomatig os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae ' ' gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y motiff ' '. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr a ddangosir gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr sydd yn union o dan y Symbol Chwarae ' ' hwnnw.

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae Gêm SUPER BONUS

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | -BANK | BRCASE | WALLET | MNYBAG | -GEM- |
| Symbolau Chwarae | SILVER | | | | |
| Penawdau Chwarae | SILVER | CROWN | -RUBY | -WIN- | |

Bydd un Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen Ardal Chwarae Gêm SUPER BONUS. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae SUPER BONUS y gellir eu defnyddio i chwarae Gêm SUPER BONUS.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer Gêm SUPER BONUS

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £5.00 | £10.00 | £20.00 | £100 |
| Penawdau Gwobr | -FIVE | -TEN- | TWNTY | -HUND |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Gwobr yn Ardal Chwarae Gêm SUPER BONUS. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond Symbol Gwobr Gêm SUPER BONUS a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr y gellir ei ddefnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â Gêm SUPER BONUS .

MAIN GAME

Mae'r MAIN GAME yn cynnwys Ardal Chwarae'r MAIN GAME a'r PRIZE TABLE. Mae Ardal Chwarae'r MAIN GAME yn cynnwys saith Rhes wedi'u labelu fel a ganlyn: 'ROW 1', 'ROW 2', 'ROW 3', 'ROW 4', 'ROW 5', 'ROW 6' a 'ROW 7'. Mae pob Rhes yn cynnwys rhif y Rhes a thri motiff ' '. Ar ochr chwith Ardal Chwarae'r MAIN GAME ceir PRIZE TABLE (y "Tabl Gwobrau"). Mae wyth dilyniant yn y Tabl Gwobrau ac mae pob un ohonynt yn cynnwys tri symbol a swm ariannol wrth ymyl y dilyniant hwnnw.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu tri Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol o dan yr haen mewn un Rhes yn y MAIN GAME, yn yr union drefn â dilyniant a ddangosir yn y Tabl Gwobrau. Bydd y Wobr yn cyfateb i'r swm ariannol wrth ymyl y dilyniant hwnnw yn y Tabl Gwobrau.

YOU MUST BE 16 OR OVER TO PLAY OR CLAIM A PRIZE 16+

**GP GM1174**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®
AMAZING STARTS HERE

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer y MAIN GAME

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | **-WAD-** | **VAULT** | **-HAT-** | **SEVEN** | **STACK** |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | **TCHEST** | **GLDBAR** | **CLOVER** | **RAINB** | **MNYPOT** |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | **MYTREE** | **GLDKEY** | **WATCH** | **-SAFE** | **-BAG-** |
| Symbolau Chwarae | | | | | |
| Penawdau Chwarae | **-COIN** | **HSHOE** | | | |

Bydd tri Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Rhes yn y MAIN GAME. Dim ond un Pennawd Chwarae sy'n ymddangos o dan bob Symbol Chwarae. Dim ond y Symbolau Chwarae a'r Penawdau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r MAIN GAME.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| £2 | £2 | 368,490 | 30 | +/- 5.00% |
| £2 | £2 BONUS | 736,826 | 15 | +/- 5.00% |
| £4 | £4 | 184,217 | 60 | +/- 5.00% |
| £4 | £4 BONUS | 221,097 | 50 | +/- 5.00% |
| £4 | £2 x 2 | 239,523 | 47 | +/- 5.00% |
| £5 | £5 | 239,469 | 47 | +/- 5.00% |
| £5 | £5 BONUS | 313,195 | 36 | +/- 5.00% |
| £10 | £10 | 36,912 | 300 | +/- 5.00% |
| £10 | £10 SUPER BONUS | 55,293 | 200 | +/- 5.00% |
| £10 | £5 + £5 BONUS | 55,248 | 201 | +/- 5.00% |
| £10 | £5 x 2 | 55,325 | 200 | +/- 5.00% |
| £10 | £2 BONUS + (£2 x 4) | 55,203 | 201 | +/- 5.00% |
| £10 | £2 x 5 | 36,912 | 300 | +/- 5.00% |
| £20 | £20 | 18,364 | 602 | +/- 5.00% |
| £20 | £20 BONUS | 18,426 | 600 | +/- 5.00% |
| £20 | £10 + £10 BONUS | 36,790 | 301 | +/- 5.00% |
| £20 | (£2 x 2) + (£4 x 3) + £4 BONUS | 36,867 | 300 | +/- 5.00% |
| £20 | (£5 x 3) + £5 SUPER BONUS | 18,458 | 599 | +/- 5.00% |
| £100 | £100 | 731 | 15,122 | +/- 5.00% |
| £100 | £100 SUPER BONUS | 737 | 14,999 | +/- 5.00% |
| £100 | (£5 x 3) + £5 BONUS + £10 + £10 SUPER BONUS + (£20 x 3) | 829 | 13,334 | +/- 5.00% |
| £100 | (£10 x 7) + £10 BONUS + £20 SUPER BONUS | 834 | 13,254 | +/- 5.00% |

YOU MUST BE 16 OR OVER TO PLAY OR CLAIM A PRIZE 16+

**GP GM1174**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®
AMAZING STARTS HERE

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| £100 | £5 + £5 BONUS + 10 SUPER BONUS + (£20 x 4) | 824 | 13,415 | +/- 5.00% |
| £100 | £10 + £10 BONUS + £20 SUPER BONUS + (£20 x 3) | 837 | 13,207 | +/- 5.00% |
| £100 | (£10 x 5) + (£5 x 2) + £20 BONUS + £20 SUPER BONUS | 907 | 12,188 | +/- 5.00% |
| £100 | £5 + £5 BONUS + £10 + £20 SUPER BONUS + (£20 x 3) | 926 | 11,938 | +/- 5.00% |
| £100 | (£4 x 4) + £4 BONUS + £20 SUPER BONUS +(£20 x 3) | 1,017 | 10,870 | +/- 5.00% |
| £1,000 | £1,000 | 15 | 736,920 | +/- 36.55% |
| £80,000 | £80,000 | 5 | 2,210,760 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Gall y Gêm barhau i gael ei gwerthu ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei hawlio. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd y galwadau'n costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

## Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 64.50% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £14,259,530 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae ohonynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, tynnu Cardiau Crafu yn ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu yn ôl gan Camelot heb yn wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), neu argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Camelot argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

## Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Gweithdrefnau hyn fydd drechaf.